# DEDDF IECHYD ANIFEILIAID 1981

## GORCHYMYN TWBERCWLOSIS (CYMRU) 2010 (O.S.2010/1379) (FEL Y'I DIWYGIWYD)

## TRWYDDED GYFFREDINOL I SYMUD ANIFEILIAID BUCHOL NA CHYNHALIWYD PRAWF TWBERCWLOSIS ARNYNT CYN EU SYMUD O SIOE AMAETHYDDOL SYDD HEB EI HESEMPTIO YN ARDAL TB CANOLRADD NEU UCHEL CYMRU

Yn unol ag erthyglau 13 a 23 o Orchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010 (fel y'i diwygiwyd), mae Gweinidogion Cymru drwy hyn yn awdurdodi, drwy'r drwydded gyffredinol hon, symud anifeiliaid buchol na chawsant prawf croen cyn symud â chanlyniadau negyddol heb fod yn fwy na 60 diwrnod cyn eu symud, o sioe amaethyddol heb ei hesemptio yn ardal TB Canolradd neu Uchel Cymru (fel y'i diffinnir yng Ngorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010), cyn belled ag y cedwir at amodau'r drwydded hon.

Daw'r drwydded hon i rym am 00:01 o'r gloch ar 30 Gorffennaf 2018

Llofnodwyd gan Alison Ion.....
O dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 30 Gorffennaf 2018

**Amodau:**

1) Daw'r anifeiliaid yn wreiddiol o fuches yn Ardal TB Isel Cymru, Ardal Risg Isel Lloegr, neu'r Alban.

2) Ni chaniateir symud unrhyw anifeiliaid buchol i'r eiddo nac oddi yno pe bai symudiadau o'r fath yn groes i unrhyw gyfyngiadau eraill sydd yn eu lle oherwydd clefyd hysbysadwy arall adeg y symud arfaethedig.

3) Mae peidio â chydymffurfio ag amodau'r drwydded hon yn drosedd o dan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981.

Nodiadau:

i) Y "Gorchymyn" yw Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010 (O.S.2010/1379) (fel y'i diwygiwyd).

ii) Ystyrir sioe amaethyddol yn un sydd wedi'i hesemptio os na fydd unrhyw anifeiliaid buchol yn aros ar faes y sioe am gyfnod o fwy na 24 awr neu os byddant yn cael eu cadw dan do ar faes y sioe (h.y. os cânt eu cadw mewn safle dan do ag ochrau iddo/heb ochrau, gan gynnwys pebyll, neu marquees.

iii) Mae anifeiliaid buchol yn golygu gwartheg domestig o'r genws Bos, byfflo, neu fison.

iv) Mae'r "Ardal TB Isel" yn golygu'r holl dir sydd wedi'i liwio a'i enwi fel yr ardal TB Isel ar y map a adneuwyd o Ardaloedd TB Rhanbarthol Cymru.

v) O dan Erthygl 13 o'r Gorchymyn:

(1) Ni chaiff unrhyw berson symud anifail buchol o unrhyw fangre oni fydd–

(a) prawf croen wedi ei gyflawni arno, ddim mwy na 60 diwrnodcyn dyddiad y symud; a

(b) bod canlyniadau'r prawf wedi eu darllen gan arolygydd neu filfeddyg cymeradwy, a'r canlyniadau hynny'n negyddol.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i'r canlynol–

(a) anifeiliaid buchol sydd o dan 6 wythnos oed ar ddyddiad y symud;

(b) symud anifail buchol i le ar gyfer triniaeth filfeddygol, ar yr amod y'i dychwelir yn uniongyrchol i'w fangre wreiddiol ar ôl y driniaeth, neu y'i lleddir neu y'i hanfonir yn syth i'w gigydda;

(c) unrhyw symudiadau a bennir yn Atodlen 2; a

(ch) unrhyw symudiad a gymeradwyir gan Weinidogion Cymru.